# BETH AM GYSYLLTU

**GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 4-7 OED**

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023

## GWEITHGAREDD 1

## Y BOBL SY'N BWYSIG I NI

**Mae'r gweithgaredd hwn yn annog disgyblion i ystyried y bobl sydd ganddynt gysylltiad â nhw, a sut maen nhw'n teimlo am y bobl hyn.**

**DS:** Byddwch yn arbennig o ymwybodol o ddisgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal, rhai sy'n cael gofal gan berthynas, a phlant sydd efallai yn cael cyswllt cyfyngedig â'u rhieni neu aelodau eraill o'r teulu wrth wneud y gweithgaredd hwn.

- Darllenwch y llyfr 'The Invisible String' gan Patrice Karst (neu lyfr gyda thema debyg).
- Trafodwch eu llinynnau anweledig gyda'r disgyblion a'r bobl sydd ganddynt gysylltiad gyda nhw - teulu, ffrindiau, anifeiliaid anwes, pobl sydd wedi marw neu bobl nad ydynt yn cael llawer o gyswllt â nhw bellach. Holwch y disgyblion am eu teimladau - sut maen nhw'n teimlo pan maen nhw gyda phobl maen nhw'n eu caru? Sut maen nhw'n teimlo pan maen nhw ar wahân?
- Gofynnwch i'r disgyblion dynnu llun o'u hunain yng nghanol y darn o bapur.
- Tynnwch lun llinyn (neu gludwch ddarn o linyn ar y llun) i gysylltu'r llun o'r disgybl â'r bobl sy'n bwysig iddyn nhw. Yn achos rhai disgyblion, gallai hyn gynnwys hoff gymeriadau o lyfrau, cartwnau ac ati neu eu hanifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill.

**Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer plant 4-7 oed, ond fe allech ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau oed eraill hefyd. I ymestyn y cynnwys, cyfeiriwch at syniadau eraill am weithgareddau.**

